



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cryfhau Llywodraeth Leol – Cyflawni dros ein Pobl



**Ymgynghoriad**

# Helo

Mae gennym ni **Lywodraeth Cymru** a **Llywodraeth Leol** yng Nghymru.

Weithiau mae pobl yn galw Llywodraeth Leol yn Awdurdod Lleol neu'n Gyngor.

## Llywodraeth Cymru

Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau dros Gymru:

- rydyn ni'n gosod cyllidebau ac yn rhoi arian i'r Awdurdodau Lleol
- rydyn ni'n datblygu polisïau a chyfreithiau newydd
- rydyn ni'n cefnogi ac yn gwella bywydau pawb yng Nghymru.

Rydyn ni hefyd yn cefnogi Awdurdodau Lleol.

## Awdurdodau Lleol

Mae gan Awdurdod Lleol bwerau dros ardal benodol. Maen nhw'n gofalu am nifer o wahanol wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio:

- tai
- ysgolion
- gwasanaethau cymdeithasol
- llyfrgelloedd, hamdden a thwristiaeth
- cynllunio
- iechyd yr amgylchedd, sbwriel ac ailgylchu
- trafnidiaeth.

Mae Cymru'n newid. Mae'n rhaid i ni gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni wedi edrych ar Awdurdodau Lleol:

- sut maen nhw'n gweithio
- sut maen nhw'n gwrando ar bobl
- sut maen nhw'n diwallu anghenion pobl
- sut maen nhw'n gwario arian
- sut maen nhw'n darparu gwasanaethau
- sut maen nhw'n cynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Rydyn ni'n meddwl bod angen i Awdurdodau Lleol newid.**

Mae 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Rydyn ni'n meddwl bod angen i rai ohonyn nhw ddod at ei gilydd i greu Awdurdodau mwy a chryfach.

**Mae hwn yn sôn am y newidiadau – rydyn ni eisiau cael eich barn chi.**



## Ein Gweledigaeth

Rydyn ni eisiau Awdurdodau Lleol mwy, cryfach a mwy pwerus a fydd yn gallu symud Cymru ymlaen.

# Pam mae angen newid?

Dydy hyn ddim yn golygu:

- newid llinellau ar fap
- cymryd pwerau oddi ar Awdurdodau Lleol neu gymunedau
- atal pobl rhag cymryd rhan neu gael eu clywed
- gwneud mwy o doriadau i gyllid
- dod â gwasanaethau i ben.



## Mae’n golygu democratiaeth

Mae’r gair Democratiaeth yn cynnwys dau hen air:

**‘demo’** – sy’n golygu pobl
**‘cratiaeth’** – sy’n golygu rheolaeth.

Mae’n gred mewn rhyddid a chydraddoldeb. Mae ein systemau llywodraethol yn seiliedig ar hyn.

Rydyn ni eisiau i amrywiaeth o bobl gymryd rhan a dweud eu dweud.

## Mae’n golygu pobl

Rydyn ni eisiau i gymunedau gael eu cynrychioli’n well gan eu Cynghorwyr

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynghorwyr. Mae cymunedau’n pleidleisio dros y bobl maen nhw eisiau i’w cynrychioli.

Rydyn ni eisiau i fwy o bobl o gefndiroedd gwahanol ystyried bod yn Gynghorwyr.

Dylai bod cynghorwyr yn cynrychioli pawb yn eu hardal. Ni ddylai unrhyw un gael ei gau allan oherwydd oedran, hil, crefydd, cefndir neu unrhyw reswm arall.

## Mae’n golygu cyllid

Rydyn ni eisiau defnyddio cyllidebau ac adnoddau’n well.

Mae pob awdurdod lleol yn wynebu heriau:

- mae yno lai o arian
- mae mwy o bobl yn defnyddio’r gwasanaethau
- mae pobl yn disgwyl mwy gan y gwasanaethau.

Rhaid i gyllid gael ei ddefnyddio’n effeithiol, oherwydd mae angen gwasanaethau cynaliadwy fydd dal yno yn y dyfodol.

## Mae’n golygu gwasanaethau

Mae’n golygu mwy na dim ond arian. Mae’n golygu gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un gwasanaeth ymhob rhan o Gymru, a hwnnw’n wasanaeth o safon uchel.

Allwn ni ddim cael **22** Awdurdod Lleol, yn gwneud pethau mewn **22** ffordd wahanol, ar lefel wahanol gyda **22** canlyniad gwahanol.

Dydy hyn ddim yn deg. Dydy o ddim yn darparu’r hyn mae ar bobl ei angen.

# Amserlen

Beth rydyn ni wedi ei wneud yn barod.

**2014** – Comisiwn Williams yn gwneud astudiaeth o Awdurdodau Lleol.
Yr adroddiad yn dweud pe bai rhai awdurdodau'n dod at ei gilydd yna byddai'n bosib:

- gwella gwasanaethau
- wynebu heriau'n well
- arbed llawer o arian.

**2015** – Llywodraeth Cymru'n edrych ar ffyrdd i uno Awdurdodau Lleol.
Yna'n gofyn am farn pobl ar draws Cymru.
Rhai pobl yn meddwl ei fod yn syniad da, rhai ddim.

**2016** – Llywodraeth Cymru'n trafod gyda'r Awdurdodau Lleol. I gael gwybod sut allen ni gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol.

**2017** – Llywodraeth Cymru'n ystyried popeth roedd yr Awdurdodau Lleol wedi ei ddweud ac yn creu cynllun newydd i'w helpu i gydweithio'n well.

Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi gwneud yn dda iawn – ond dydy hyn ddim wedi digwydd ym mhobman.

**2018**

**Dyma'r newidiadau rydyn ni am eu gweld.**



# Y newidiadau

Rydyn ni'n meddwl ei bod yn bryd i rai Awdurdodau Lleol ddod at ei gilydd i ffurfio Awdurdodau mwy.

Mae tair ffordd o wneud hyn.





## Opsiwn 1 – Awdurdodau Lleol yn dewis

Yr awdurdodau Lleol eu hunain yn dewis os a phryd i uno.

Yna'n byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud penderfyniadau. Ond, efallai na fydd hyn yn arwain at y newidiadau y mae ar Gymru eu hangen.

Byddem ni'n eu cefnogi trwy gydol y newidiadau.

## Opsiwn 2 – Newid fesul cam

Byddai rhai Awdurdodau Lleol yn ehangu i ddechrau a byddai'r gweddill yn dilyn maes o law.

Bydd Awdurdodau Lleol sy'n dewis uno, yn gallu gwneud hynny'n gynt. Byddem ni'n eu cefnogi i uno yn 2022.

Byddai'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol eraill uno erbyn 2026.

Mae hyn yn golygu y buasai rhannau o Gymru yn gwneud arbedion ac yn cael gwell gwasanaethau o flaen rhannau eraill.

Byddem ni'n eu cefnogi trwy gydol y newidiadau.

## Opsiwn 3 – Un cynllun gweithredu

Mae pob Awdurdod Lleol yn uno ac yn dod yn fwy ar yr un pryd.

Byddai'r Awdurdodau Lleol yn uno yn 2022.

Mae hyn yn gosod un llwybr clir ymlaen y gall pob Awdurdod ei ddilyn.

Efallai ei fod yn newid mawr, ond mae'n delio'n gynt â'r heriau i wasanaethau a chyllid.

Byddem ni'n eu cefnogi trwy gydol y newidiadau.

## Pris y newid

Mae newid yn cymryd amser ac yn costio. Ond, mae'r gost o wneud dim yn uwch.

? Pa opsiwn fyddech chi'n ei ddewis? ☐ **1** ☐ **2** ☐ **3**

Pam?

# Sut bydd yr Awdurdodau newydd mwy yn edrych?

Rydyn ni wedi gwrando ar bobl ac wedi defnyddio'r wybodaeth honno i greu'r cynllun yma. Rydyn ni'n credu bod angen llai o Awdurdodau Lleol a'r rheini'n rhai mwy. Rydyn ni wedi awgrymu sut i wneud hyn.

Rydyn ni'n gwybod na fydd hyn yn hawdd. Bydd yno faterion i bob ardal ddelio â nhw.


Ydy cael llai o Awdurdodau a rheini'n rhai mwy yn syniad da?

☐ **Ydy** ☐ **Nac ydy**

Beth yw eich barn chi am ein syniadau ar gyfer yr Awdurdodau?

## Cefnogaeth yn ystod y newidiadau

Mae'n bwysig bod y newidiadau'n digwydd mewn ffordd sy'n deg, yn agored ac yn glir. Felly bydd Pwyllgor Pontio yn cynnig help a chyngor. Bydd staff hefyd yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth maen nhw eu hangen.



# Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?

Bydd yr Awdurdodau newydd mwy yn gallu:

### Helpu i wella gwasanaethau

Bydd gan Awdurdodau mwy y canlynol:

- y gallu i ymdopi gyda mwy o alw am wasanaethau
- mwy o adnoddau a phobl gyda sgiliau
- y cyfle i ystyried syniadau newydd a datblygu gwasanaethau newydd
- ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion pobl, nawr ac yn y dyfodol.

### Rhoi'r pŵer dros wneud penderfyniadau i'r bobl

Mae arweinwyr Awdurdodau Lleol wedi dweud eu bod nhw eisiau gallu gwneud penderfyniadau i wella gwasanaethau a gwneud beth bynnag sydd ei angen ar gyfer eu hardal. Maen nhw eisiau i bobl gymryd rhan yn eu cymunedau a chynllunio'n well ar gyfer y dyfodol.

### Cefnogi Cynghorwyr

Mae Cynghorwyr yn gweithio'n galed i wella eu cymunedau. Maen nhw'n gorfod delio â thoriadau a phenderfyniadau anodd. Yn aml, maen nhw'n dioddef beirniadaeth yn y wasg, trolio ar y we a phobl yn cwyno. Mae hyn yn perswadio llawer o bobl i beidio â bod yn gynghorwyr, hyd yn oed os bydden nhw'n gallu gwneud y gwaith yn dda.

**Mae newid yn gallu bod yn anodd.** Mae'n gallu gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus ac yn bryderus. Pan fydd y newidiadau yma'n digwydd, bydd cyngor a chefnogaeth ar gael i staff a'r bobl sy'n darparu gwasanaethau.

Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan bob ardal y gefnogaeth y mae arnyn nhw ei hangen.

? Sut gallwn ni gael mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i gymryd rhan a bod yn gynghorwyr?



# Materion eraill

Mae gennym ni ddyletswydd i wneud y canlynol:

1. **Diogelu'r Gymraeg.** Mae'n bwysig bod pobl yn cael gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.

   **?** Yn eich barn chi, pa effaith fydd y newidiadau yn eu cael ar y Gymraeg?
   ☐ **Cadarnhaol** ☐ **Negyddol** ☐ **Dim llawer o effaith**

2. **Trin pobl yn gyfartal ac yn deg.** Dylai pawb allu cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu cymunedau.

   **?** Yn eich barn chi, pa effaith fydd y newidiadau yn eu cael ar y ffordd mae pobl yn cael eu trin?
   ☐ **Cadarnhaol** ☐ **Negyddol** ☐ **Dim llawer o effaith**

3. **Diogelu Hawliau Plant.** Rhaid i ni ystyried hawliau plant pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau.

   **?** Yn eich barn chi, pa effaith fydd y newidiadau yn eu cael ar Hawliau Plant?
   ☐ **Cadarnhaol** ☐ **Negyddol** ☐ **Dim llawer o effaith**

Ydych chi eisiau dweud unrhyw beth arall am y cynlluniau yma?

## Diolch am ddarllen

Rydyn ni eisiau clywed eich barn.

Anfonwch eich atebion at:
CryfhauLlywleol@llyw.cymru

neu at
Cryfhau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

erbyn 12th Mehefin 2018

